

Medrwn Môn

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol



3. Gweithio gydag eraill

3.8 Contractau

Beth yw contract?

Contract yw cytundeb rhwng dau neu fwy o bartïon sy'n cael ei gydnabod gan y gyfraith ac y gellir ei orfodi drwy'r llysoedd. Fel rheol, nid oes ffurf benodol ar gontract: gall fod yn ysgrifenedig, yn llafar neu ymhlyg mewn ymddygiad. Mae rhai eithriadau i'r rheol sylfaenol hon, er enghraifft rhaid i forgeisi, trosglwyddo patentau a chontractau gwarant fod yn ysgrifenedig.

Mae pum gofyniad hanfodol sy'n rhaid eu cwrdd i greu contract:

- Rhaid i un parti wneud cynnig i barti arall.
- Rhaid i'r parti y gwneir y cynnig iddo dderbyn y cynnig yn gwbl ddiamwys a chyfleu ei fod yn derbyn i'r parti sy'n gwneud y cynnig.
- Rhaid i ystyriaeth lifo rhwng y partiön.
- Rhaid i'r partiön fwriadu greu cytundeb sy'n eu rhwymo'n gyfreithiol.
- Rhaid i delerau'r cytundeb fod yn glir a phendant.

Mae terminoleg yn dipyn o sgwarnog. Nid oes gan dermau fel 'cytundeb', 'cytundeb lefel gwasanaeth' neu 'CLG / SLA' unrhyw ystyr cyfreithiol penodol: y cwestiwn yw a ydyw eich trefniant yn bodloni'r pum gofyniad hanfodol uchod.

Os ydyw, bydd gennych gontract sy'n rhwymo'r partiön yn gyfreithiol.

Bydd corff cyhoeddus yn aml yn mynd drwy broses o dendro cystadleuol i benodi darparwr i ddarparu gwasanaeth cyhoeddus. Cyn cyflwyno tendr, dylech gadarnhau amodau'r tendr yn ofalus: efallai y byddwch, wrth gyflwyno tendr, yn cytuno os llwyddwch i'w ennill y byddwch yn llunio contract ar y telerau a roddir gan y corff cyhoeddus. Meddylwch a ydyw amodau'r tendr yn caniatáu ichi godi cwestiynau ynghylch telerau'r contract arfaethedig: os ydynt, yna cofiwch godi unrhyw fater sy'n peri gofid ichi; os nad ydynt ac nid yw telerau'r contract yn dderbyniol ichi, meddylwch a fyddai'n beth doeth ichi gyflwyno tendr.

Materion allweddol gyda chontractau i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus

1. Manyleb y gwasanaeth

Dylai'r fanyleb gwasanaeth ddisgrifio'r gwasanaethau sydd i'w cyflawni mor glir a phenodol â phosibl er mwyn osgoi unrhyw anghydfod yn y dyfodol ynghylch beth ddylech fod yn ei ddarparu:

- Byddwch yn realistig ac yn ymarferol.
- Rhowch fanylion am bryd y mae'r gwasanaethau i'w cyflawni.

- Rhowch fanylion am ble y mae'r gwasanaethau i'w cyflawni.
- Os yw'n berthnasol, dywedwch ba ddefnyddwyr neu fuddiolwyr sydd efallai yn mynd i ddefnyddio'r gwasanaethau ac isafswm / uchafswm nifer.

Dylai'r contract nodi sut y bydd perfformiad y gwasanaeth yn cael ei fonitro. Dylai'r gofynion monitro fod yn briodol ac yn gymesur i'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu.

2. Lefelau gwasanaeth / safonau perfformiad

Dylai'r lefelau gwasanaeth fod yn glir, yn bendant, yn wrthrychol (nid yn oddrychol na'n seiliedig ar farn), yn bosibl a dylid gallu eu mesur. Dylent hefyd fesur unrhyw allbwn sydd o fewn eich rheolaeth. Mae methu â chyflawni lefelau gwasanaeth yn dor-contract, gan roi hawl i'r corff cyhoeddus hawlio iawndal am golledion sydd, yn fras, o ganlyniad rhagweladwy rhesymol i dorri'r contract.

Os bydd credydau gwasanaeth i'w talu, cofiwch mai iawndal penodedig yw'r rhain ac, felly, y dylent fod yn gyn-amcangyfrif gwirioneddol o'r golled a fydd yn digwydd o ganlyniad i fethu â chyflawni'r lefelau gwasanaeth.

Ystyriwch a ddylai fod gan y corff cyhoeddus hawl i derfynu'r contract unwaith y bydd methiant i gwrdd â lefelau gwasanaeth yn cyrraedd lefel arbennig.

3. Dibyniadau

Dylai'r contract nodi'r holl bethau y byddwch angen i'r corff cyhoeddus / trydydd parti eu gwneud neu eu

darparu fel y gallwch ddarparu'r gwasanaethau. Os bydd y trydydd parti'n cyflenwi unrhyw un o'r dibyniadau, cofiwch nad yw'r trydydd parti'n barti i'r contract ac, felly, bod angen ymrwymiad gan y corff cyhoeddus i sicrhau y bydd y trydydd parti'n gwneud neu'n darparu'r peth perthnasol. Meddyliwch am faterion fel hawliau mynediad i, ac i ddefnyddio, adeiladau neu dir, cyfleusterau a chyfarpar, i ddarparu gwybodaeth, dogfennau a deunyddiau, mynediad at bersonél, hawl i ddefnyddio meddalwedd a chyfarpar TG. Dylai'r contract amodi na fyddwch yn atebol am unrhyw oedi neu fethiant i gyflawni eich ymrwymadau o ganlyniad i oedi neu fethiant ym mherfformiad y dibyniadau.

4. Pris a thalu

Dylai'r pris olygu y gallwch adennill eich costau i gyd, yn rhai union ac anuniongyrchol, wrth berfformio'r gwasanaeth: sef y gallwch adennill eich costau'n llawn. Dylid defnyddio unrhyw weddill neu elw er budd amcanion yr elusen, h.y. nid ei ddychwelyd i'r corff comisiynu. Gellir defnyddio arian elusennol at wasanaeth awdurdod cyhoeddus dim ond os bydd hyn er budd i'r elusen a'i buddiolwyr, os bydd yn ddefnydd priodol ac effeithiol o adnoddau'r elusen ac os bydd yn unol ag amcanion yr elusen.

Meddyliwch am system ar gyfer adolygu a chodi prisiau a gwneud taliadau:

- Pryd a sut fydd y taliad yn cael ei wneud?
- A ydyw'r pris yn cynnwys TAW neu beidio?

- A fydd credydau gwasanaeth yn cael eu gosod yn erbyn y pris sy'n daladwy?
- A fydd talu'n hwyr yn rhoi hawl ichi derfynu a / neu ohirio'r gwasanaeth?

Dylech gynnwys yr hawl i godi llog ar daliadau hwyr – os yw'r contract yn un 'mud', defnyddir y gyfradd statudol o dan Ddeddf Hwyr dalu Dyledion Masnachol (Llog) 1998. Meddyliwch am ba ddarpariaethau o ran adroddiad ariannol, cadw cofnodion ac archwilio sydd eu hangen arnoch.

5. Atebolrwydd

Warantî yw addewid a wneir mewn contract, ac os torrir ef gall y parti arall hawlio iawndal am unrhyw golledion sydd, yn fras, o ganlyniad rhagweladwy rhesymol i dorri'r contract. Mae dyletswydd i liniaru'r colledion hyn. Indemniad yw addewid a wneir mewn contract i dalu'r parti arall am unrhyw golledion sy'n codi o ddigwyddiad neu amgylchiad penodol, p'un ai ydynt o ganlyniad rhagweladwy rhesymol i ddigwyddiad neu amgylchiad o'r fath neu beidio. Nid oes dyletswydd i liniaru'r colledion hyn.

Dylid osgoi rhoi indemniad lle bynnag y bo hynny'n bosibl gan y byddwch efallai'n fwy atebol nag y byddech o dan y gyfraith gyffredin a gallai hefyd effeithio ar eich sefyllfa yswiriant. Meddyliwch a ddylech gynnwys cyfyngiad ariannol llwyr neu gap ar eich atebolrwydd o dan y contract, sut bynnag y gallai godi (ond cofiwch nad yw'n bosibl eithrio neu gyfyngu atebolrwydd am rai mathau o golled, fel marwolaeth neu anaf personol o ganlyniad i esgeulustod).

Os ydych yn gymdeithas anghorfforedig, meddyliwch am gapio atebolrwydd ar lefel sydd gyfwerth â neu'n llai na gwerth net eich asedau. Meddyliwch ba fathau o golledion y byddwch efallai eisiau cael eich eithrio o fod yn atebol drostynt – er enghraifft, colli elw, colli busnes, colli contract, colli ewyllys da.

Bydd darpariaethau sy'n eithrio neu'n cyfyngu atebolrwydd yn gweithio ddwy ffordd yn aml (h.y. byddant yn berthnasol i atebolrwydd pob un o'r partiön i'r contract). Os nad ydynt yn 'gilyddol', mae'n debyg y bydd y corff cyhoeddus yn ceisio cyfyngu mwy ar ei atebolrwydd nag y byddwch chi.

6. Hyd y contract a therfynu

Pwyntiau i'w hystyried:

- A fydd y contract yn para am gyfnod penodol neu hyd nes y bydd y naill barti neu'r llall yn ei derfynu drwy roi cyfnod penodol o rybudd i'r llall?
- Pa hawliau sydd gan y naill barti neu'r llall i derfynu'r contract yn fuan, er enghraifft o ganlyniad i dor-contract sylweddol gan y parti arall, neu ansolfedd, neu am resymau sy'n benodol i'r contract arbennig, fel pan fydd y gwasanaethau i gael eu trosglwyddo'n ôl i'r corff cyhoeddus?
- Beth yw canlyniadau terfynu'r contract – er enghraifft, a fyddwch yn helpu i drosglwyddo'r gwasanaethau i ddarparwr arall neu'n ôl i'r corff cyhoeddus? Os felly, a fyddwch yn cael eich talu am roi'r cymorth hwn?
- A fydd unrhyw un o'ch gweithwyr o dan TUPE yn trosglwyddo i'r corff

cyhoeddus neu i'r darparwr newydd?

- A oes unrhyw ddogfennau, deunyddiau neu wybodaeth gyfrinachol i'w dychwelyd?
- Adeiladau i'w gwagu / gadael?
- A fydd iawndal yn cael ei dalu gan un parti i'r llall os terfynir y contract yn fuan?

7 Amrywio'r contract

Dylai'r ddau barti orfod cytuno i unrhyw amrywiad yn nhermau'r contract. Os yw'r corff cyhoeddus yn mynnu hawl unochrog i newid sgôp y gwasanaethau, meddylwch am osod paramedrau ar gyfer gwneud newidiadau oddi mewn iddynt a'r effaith ar bris.

8 Materion eraill

A allwch gydymffurfio â'r holl ymrwymadau? Os yw'r contract yn gofyn ichi gydymffurfio â deddfwriaeth neu â thelerau dogfennau eraill, a ydych wedi gweld y rhain ac a allwch gydymffurfio â nhw?

A fydd data personol sydd wedi'i ddiogelu o dan Ddeddf Diogelu Data 1998 yn pasio rhwng y partïon? Os bydd, meddylwch am gydymffurfio â'r Ddeddf hon. A fydd gwybodaeth gyfrinachol yn pasio rhwng y partïon? Os bydd, meddylwch a allai'r cyhoedd efallai ddod i weld eich gwybodaeth gyfrinachol mewn ymateb i gais o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

A fydd staff o dan TUPE yn trosglwyddo atoch chi ar ddechrau'r contract? Os byddant, a wyddoch beth yw eu telerau a'u hamodau gwaith presennol, oherwydd byddwch wedi eich rhwymo iddynt, ac a ydyw'r

contract yn cynnwys indemniad gan y corff cyhoeddus ar gyfer costau a hawliadau sy'n deillio o'r cyfnod gwaith cyn y dyddiad trosglwyddo? A ydyw'r contract yn cynnwys gweithdrefn ar gyfer delio gyda chwynion am y gwasanaeth? A ydyw'r contract yn cynnwys gweithdrefn ar gyfer datrys anghydfod rhyngoch chi a'r corff cyhoeddus?

Meddylwch am oblygiadau Deddf yr Iaith Gymraeg; os byddwch yn darparu gwasanaethau ar ran yr awdurdod lleol, efallai y bydd angen ichi gydymffurfio â'i Gynllun Iaith Gymraeg?

9 Gweithio'n Gydweithredol

Gweithio'n gydweithredol yw lle mae dau gorff neu fwy yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu gwasanaeth cyhoeddus. Mae'r holl faterion blaenorol yn berthnasol i weithio'n gydweithredol. Yn ychwanegol at y rhain, meddylwch am sut y byddwch yn rhannu'r risgiau a'r cyfrifoldebau o ddarparu'r gwasanaeth rhyngoch chi a'ch sefydliad(au) 'partner'.

A ydyw'n glir pwy fydd yn gwneud beth a phwy fydd yn derbyn pa dâl? A ydyw'r contract wedi'i ddrafftio ar y sail os yw un 'partner' yn achosi colled neu ddifrod i'r corff cyhoeddus, y gallai'r corff cyhoeddus hawlio yn erbyn y naill neu'r llall ohonoch? Os felly, dylai fod gennych gontract ar wahân rhyngoch chi a'ch 'partner' fel y gall y naill hawlio gan y llall unrhyw beth sy'n rhaid ichi ei dalu i'r corff cyhoeddus o ganlyniad i ddiffyg neu esgeulustod y llall.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol os bydd eich 'partner' yn torri'r contract, y gallai'r corff cyhoeddus derfynu'r contract cyfan i ddarparu'r gwasanaeth cyhoeddus.

Cofiwch – cyn cytuno i gontract, dylech gyflawni asesiad risg i sicrhau bod llunio'r contract o fudd ichi a dylech bob amser ofyn am gyngor cyfreithiol proffesiynol.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Medrwn Môn

Uned 5, Parc Ddiwydiannol Bryn Cefni, Llangefni, Sir Ynys Môn, LL77 7XA
Elusen Gofrestredig 1088828

Ffôn: 01248 724944

post@medrwnmon.org

Ffacs: 01248 750149

www.medrwnmon.org

Cynhyrwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddarau: 04/12/2009



Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk